This document is also available in English

CYNNWYS

**ADRAN 7**


**7. Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

7.1 Rhagarweiniad
7.2 Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
7.3 Swyddogaethau, Meysydd Gwaith ac Aelodaeth
7.4 Swyddogaethau Penodol
7.5 Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
7.6 Pwy All fod yn Aelodau o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu?
7.7 Aelodau Cyfetholedig
7.8 Cynrychiolwyr Addysg
7.9 Pwy sy'n Cadeirio?
7.10 Swyddogaeth y Cadeirydd a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
7.11 Rhaglen Waith
7.12 Cyfarfodydd
7.13 Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu
7.14 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau
7.15 Beth fydd nifer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Trefniadau ar eu Cyfer?
7.16 Cyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
7.17 Cworwm
7.18 Eitemau ar y Rhaglen
7.19 Adolygu a Datblygu Polisi
7.20 Adroddiadau gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu
7.21 Sicrhau bod y Cabinet yn ystyried Adroddiadau Trosolwg a Chraffu
7.22 Hawliau Aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i Ddogfennau
7.23 Aelodau a Swyddogion yn Rhoi Cyfrif
7.24 Presenoldeb Eraill
7.25 Galw i Mewn
7.26 Chwipiau Plaid
7.27 Gweithdrefn mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
7.28 Materion yng Nghylch Gwaith mwy nag un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
7.29 Galwad gan Gynghorydd i Weithredu

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Galwad Ar Gynghorydd I Weithredu: Arweiniad I Gynghorwyr
Atodiad 2 - Ffurflen Testun Craffu
Atodiad 3a - Trosolwg a Chraffu Protocol Ymgysylltu a'r Cyhoedd
Appendix 3b - Protocol Ymgysylltiad Cyhoeddus Trosolwg a Chraffu Deisebau (Yn Cynnwys E-Ddeisebau)
Atodiad 4 - Protocol ar Gyfer Cwestiynau i Aelodau Cabinet

## ADRAN 7 - PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

### 7.1 Rhagarweiniad

1.1.1 Mae'r Gyfraith yn mynnu bod y Cyngor yn cyflawni swyddogaethau craffu penodol. Mae cyflawni'r swyddogaethau hynny'n elfen hanfodol o ddemocratiaeth leol. Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fod yn gorff grymus a fedr gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau'r Cyngor a dal y Cabinet i gyfrif am ei benderfyniadau. Agwedd allweddol arall ar y swyddogaeth trosolwg a chraffu yw adolygu polisïau, ystyried cynigion ar gyfer polisïau newydd ac awgrymu polisïau newydd.

1.1.2 Dylai cyflawni'r swyddogaeth trosolwg a chraffu mewn ffordd adeiladol gyda'r nod o gyfrannu at ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n bodloni anghenion a dyheadau trigolion lleol. Ni ddylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fod ag ofn herio a chwestiynu penderfyniadau a beirniadu'n adeiladol.

### 7.2 Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd at ei gilydd (boed y Pwyllgorau eu hunain neu Grwpiau Tasg a Gorffen a benodant), ac yn eu meysydd gweithgarwch eu hunain, yn:

7.2.1 adolygu neu graffu ar benderfyniadau neu gamau gweithredu wrth gyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor boed gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor;

7.2.2 cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;

7.2.3 adolygu neu graffu ar benderfyniadau neu gamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;

7.2.4 Ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu'i neu drigolion;

7.2.5 arfer yr hawl i alw penderfyniadau'r Cabinet i mewn i'w hailystyried cyn y cânt eu gweithredu gan Swyddogion.

## 7.3 <u>Swyddogaethau, Meysydd Gwaith ac Aelodaeth</u>

Disgrifir swyddogaethau, meysydd gwaith ac aelodaeth Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn y tabl isod:

### a) Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau

Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y meysydd canlynol

- Fframwaith Cynllunio Busnes
- Monitro'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf
- Y Cynllun Corfforaethol
- Rheoli Asedau
- Trefniadau Rheoli Perfformiad
- Goruchwylio Rheolaeth Risg Corfforaethol
- Monitro Rhaglenni a Phrosiectau o bwys yn unol â'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau
- Datblygu ac Adolygu Polisïau Corfforaethol Cyffredinol
- Cydlynu'r Adroddiad Trosolwg a Chraffu blynyddol i'r Cyngor.
- Adroddiad Blynyddol Rhyddid Gwybodaeth
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch
- Polisi'r Gymraeg
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiad Monitro Cyflogaeth)
- Cydlynu Rhaglenni Gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill a datrys unrhyw ddadleuon mewn perthynas â maes gweithgarwch y Pwyllgorau eraill.
- Gweithio mewn Partneriaeth, gan gynnwys craffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Craffu ar unrhyw gynllun gweithredu o adroddiadau rheoleiddio allanol

### b) Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Economi a Lle

Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y meysydd canlynol:

- Y Cynllun Datblygu Lleol
- Cynlluniau Gwneud Lle
- Canllawiau Cynllunio Atodol
- Datblygu Economaidd a Thwristiaeth
- Adfywio a Datblygu Cynaliadwy
- Y Strategaeth Tai
- Tai Preifat, gan gynnwys Adnewyddu Tai
- Gwarchod y Cyhoedd
- Asesu Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr
- Ffyrdd o Fyw Egnïol a Chreadigol

- Diwylliant, Llyfrgelloedd a Gwybodaeth
- Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda
- Cludiant Cymunedol
- Yr Amgylchedd, Ffyrdd ac Isadeiledd - Parciau, Cefn Gwlad, Glanhau Strydoedd, Glanhau Tipio Anghyfreithlon, Priffyrdd, Traffig a Rheoli Rhwydwaith, Gwasanaethau Ailgylchu a Chasglu Gwastraff, parcio ceir, amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir, cyfleusterau cyhoeddus
- Cynllunio Rhag Argyfwng / Argyfyngau Sifil
- Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol
- Rheoli Gwastraff Rhanbarthol
- Monitro Rhaglenni a Phrosiectau o bwys yn unol â'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau
- Gweithio mewn partneriaethau eraill
- Cyflawni swyddogaeth y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn yn unol ag adran 19(1) o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006
- Craffu ar unrhyw gynllun gweithredu o adroddiadau rheoleiddio allanol

**c) Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd**

- Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y meysydd canlynol:
- Gwasanaethau Oedolion
- Gwasanaethau Plant
- Diogelu
- Amddiffyn Oedolion sy'n Ddiamddiffyn
- Iechyd Meddwl
- Tai Gofal Ychwanegol / Cartrefi Preswyl a Nyrsio
- Polisi Codi Tâl Gwasanaethau Cymdeithasol
- Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor
- Adroddiadau Rhaglen a Thrawsnewid
- Monitro Rhaglenni a Phrosiectau o bwys yn unol â'r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau
- Gwasanaethau Cludiant Gofal Cymdeithasol
- Gweithio mewn Partneriaeth gyda'r Sectorau Iechyd, Annibynnol a Gwirfoddol
- Comisiynu
- Arolygu Gofal Cymdeithasol a Rheoli Perfformiad
- Trechu Tlodi
- Cyfiawnder Ieuenctid

- Craffu ar unrhyw gynllun gweithredu o adroddiadau rheoleiddio allanol

**d) Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau**

Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y meysydd canlynol

- Monitro Perfformiad Ysgolion
- Perfformiad Ariannol Ysgolion
- Gwella a Moderneiddio Ysgolion
- Gwasanaethau Anghenion Addysgol Arbennig
- Mynediad i Wasanaethau Addysg
- Gwasanaethau Cynhwysiad Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cefnogi Ysgolion
- Addysg Barhaus a Phrentisiaethau
- Cludiant Ysgol
- Monitro Rhaglenni a Phrosiectau o bwys yn unol â’r Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau
- Gweithio mewn partneriaeth – GwE
- Craffu ar unrhyw gynllun gweithredu o adroddiadau rheoleiddio allanol

**7.4 <u>Swyddogaethau Penodol</u>**

7.4.1 <u>Datblygu ac Adolygu Polisi</u>

(a) cynorthwyo’r Cyngor a’r Cabinet i ddatblygu’r Fframwaith Polisi a Chyllideb drwy ddadansoddi materion polisi’n fanwl;

(b) cynnal gwaith ymchwil, ymgynghori a’r gymuned ac arall wrth ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posib;

(c) holi barn Aelodau’r Cabinet a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor am faterion ac argymhellion sy’n effeithio ar yr ardal;

(d) meithrin cyswllt â chyrff allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, boed yn genedlaethol, rhanbarthol neu leol, i sicrhau mwy o fudd i bobl leol drwy gydweithio; ac

(e) ystyried effaith polisïau wrth asesu a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth.

7.4.2 <u>Craffu</u>

Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu:

(a) adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cabinet a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a hirdymor;

(b) adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â’i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol;

(c) holi Aelodau’r Cabinet a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor am eu penderfyniadau a’u perfformiad, p’un ai’n gyffredinol o gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau penodol;

(d) gwneud argymhellion i’r Cabinet a/neu’r Pwyllgor priodol a/neu’r Cyngor ar sail canlyniadau’r drefn graffu;

(e) adolygu a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a gwahodd adroddiadau oddi wrthynt drwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a phobl leol am eu gweithgareddau a’u perfformiad; a

(f) holi unrhyw bobl eraill a chasglu tystiolaeth oddi wrthynt (gyda’u caniatâd).

7.4.3 <u>Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</u>

Gall Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych:

(a) adolygu neu graffu ar benderfyniadau neu gamau gweithredu’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;

(b) adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;

(c) cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch ei swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu;

(d) ystyried materion sy’n berthnasol i’r Bwrdd a gyfeirir ato gan Weinidogion Cymru ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny;

(e) darparu copïau o adroddiadau i’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch swyddogaethau a threfniadau llywodraethu’r Bwrdd i:

  a) Weinidogion Cymru;

  b) Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru;

  c) Archwilydd Cyffredinol Cymru.

(f) mynnu bod un neu fwy o’r rhai sy’n bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, neu rywun arall a enwebir ganddynt, yn mynd i gyfarfod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac egluro unrhyw faterion y mae’n ceisio eglurhad ohonynt.

7.4.4 <u>Adroddiad Blynyddol</u>

Mae’n rhaid i’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu adrodd yn flynyddol i’r Cyngor Llawn ynghylch eu gwaith gan gynnwys argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith a diwygio dulliau gweithredu os yw’n briodol.

**7.5 <u>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd</u>**

Un o swyddogaethau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd dan adran 8 o'r Mesur yw hyrwyddo swyddogaethau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor a hyrwyddo cefnogaeth ac arweiniad i Aelodau'r Cyngor a Swyddogion yn gyffredinol yng nghyswllt swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

**7.6 <u>Pwy All fod yn Aelodau o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu?</u>**

Gall yr holl gynghorwyr ac eithrio aelodau'r Cabinet a Chynorthwywyr y Weithrediaeth fod yn aelodau o bwyllgorau trosolwg a chraffu. Ni chaiff unrhyw aelod, fodd bynnag, gymryd rhan wrth graffu ar benderfyniadau y bu'n ymwneud yn uniongyrchol â hwy. Gall unrhyw aelod fynd i gyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a chyfrannu at y drafodaeth, ond heb bleidleisio.

**7.7 <u>Aelodau Cyfetholedig</u>**

Mae gan bob pwyllgor trosolwg a chraffu hawl i argymell bod y Cyngor yn penodi nifer o bobl yn aelodau cyfetholedig heb bleidlais. *Wrth gyfethol aelod neu benderfynu a ddylid gwneud hynny, rhaid i'r Awdurdod, o dan adran 76 o'r Mesur, roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru a chydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir ganddynt.*

**7.8 <u>Cynrychiolwyr Addysg</u>**

Penodir rhiant-lywodraethwyr a chynrychiolwyr enwadau crefyddol yn unol â'r gyfraith a chyfarwyddyd Senedd Cymru ac fe'u gwahoddir i bob cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu lle trafodir swyddogaethau addysg yr Awdurdod, a bydd ganddynt hawl i siarad a phleidleisio ynghylch y materion hynny'n unig.

**7.9 <u>Pwy sy'n Cadeirio?</u>**

7.,9.1 Dilynir y trefniadau a bennir yn adrannau 66-75 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth benodi pobl i gadeirio Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

7.9.2 Ni ddylid neilltuo Cadeiryddiaeth Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n llwyr ar gyfer aelodau o'r un grŵp neu grwpiau gwleidyddol â'r rhai hynny a gynrychiolir yn y Cabinet. Ni all y grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cabinet ond penodi cynifer o Gadeiryddion ag sy'n gymesur i'w cyfran o aelodaeth gyffredinol y Cyngor.

Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau fydd Arweinydd y grŵp gwleidyddol mwyaf heb gynrychiolaeth yn y Cabinet. Os oes dau o grwpiau gwleidyddol neu fwy o'r un maint, bydd y Cyngor

yn penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau o blith arweinyddion y grwpiau hynny yn ei Gyfarfod Blynyddol.

7.9.3 Ni all Aelod fod yn Gadeirydd ond ar un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

7.9.4 Bydd gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Is-gadeirydd a benodir yn flynyddol gan y Pwyllgor hwnnw.

## 7.10 Swyddogaeth y Cadeirydd a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

7.10.1 Hybu'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yn y Cyngor a'r tu allan, gan feithrin cyswllt yn effeithiol yn fewnol ac yn allanol gyda phartneriaid y Cyngor.

7.10.2 Datblygu rhaglen waith gytbwys i'r pwyllgor sy'n cynnwys craffu cyn penderfyniadau, datblygu ac adolygu polisïau, craffu ymchwiliol a monitro perfformiad.

7.10.3 Sicrhau bod y rhaglen yn rhoi sylw i elfennau perthnasol fel rhaglenni gwaith y Cabinet a phwyllgorau eraill, blaenoriaethau a risgiau strategol, a materion cymunedol perthnasol.

7.10.4 Arddangos dull craffu gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

7.10.5 Arfarnu effaith a gwerth ychwanegol y gweithgarwch craffu a nodi meysydd i'w gwella.

7.10.6 Meithrin cyswllt â'r Aelod/au Cabinet perthnasol.

## 7.11 Rhaglen Waith

7.11.1 Bydd pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n gyfrifol am bennu ei Raglen Waith ei hun ac wrth wneud hynny, dylai ystyried dymuniadau'r Aelodau hynny o'r Pwyllgor nad ydynt yn Aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

7.11.2 Bydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n penderfynu pa eitemau i'w cynnwys yn eu Rhaglenni Gwaith drwy ddefnyddio'r Weithdrefn Dewis Pwnc y mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau wedi'i chymeradwyo, sydd ynghlwm wrth yr adran hon fel atodiad.

## 7.12 Cyfarfodydd

7.12.1 Cynullir cyfarfodydd cyffredin pwyllgorau trosolwg a chraffu'n unol â'r amserlen gyfarfodydd y mae'r Cyngor yn ei chymeradwyo yn ei Gyfarfod Blynyddol. Gellir hefyd galw cyfarfodydd arbennig o bryd i'w gilydd, fel y bo'n briodol. Gall cadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu neu'r swyddog priodol alw cyfarfod o'r pwyllgor hwnnw, os credant fod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

7.12.2 Gellir galw cyfarfodydd eithriadol o bryd i'w gilydd er mwyn ymdrin â phenderfyniadau a alwyd i mewn (Adran 0) os yw Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cytuno ei bod yn angenrheidiol i'r Pwyllgor

hwnnw drafod y penderfyniad a alwyd i mewn cyn y cyfarfod nesaf ar yr amserlen.

**7.13 Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

O dan adran 58 o'r Mesur, gellir gwneud rheoliadau i ganiatáu i ddau o awdurdodau lleol neu fwy benodi Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu. Darperir ar gyfer hynny yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013.

**7.14 Rheolau Gweithdrefnau a Thrafodaethau**

Bydd Rheolau Gweithdrefnau Trosolwg a Chraffu'n berthnasol i gyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y nodir ym Mharagraff 7.27.

**7.15 Beth fydd nifer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Trefniadau ar eu Cyfer?**

7.15.1 Bydd y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol i gyflawni'r swyddogaethau trosolwg a chraffu a bennir yn adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000:

- Cyllid ac Adnoddau
- Economi a Lle
- Addysg a Sgiliau
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

Nodir cylch gorchwyl pob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mharagraff 7.3.

7.15.2 Grwpiau Tasg a Gorffen

(i) Gall y Cabinet ofyn i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu ffurfio Grwpiau Tasg a Gorffen.

(ii) Os dymuna Pwyllgor Trosolwg a Chraffu benodi Grŵp felly ei hun i gynorthwyo â'i waith neu adolygu maes gweithgarwch penodol, bydd yn rhaid i'w gynnig i ffurfio Grŵp o'r fath fanylu ynghylch:

(a) y Cylch Gorchwyl;

(b) y targed adrodd

(c) trefniadau monitro

(d) trefniadau ar gyfer cyfethol cynrychiolwyr o'r trydydd sector/tystion arbenigol os yw'n briodol

(iii) Dylid sicrhau cydbwysedd gwleidyddol lle bo modd. Cyflwynir unrhyw adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a fydd yn penderfynu a ddylid atgyfeirio unrhyw fater, i'r Cabinet neu swyddogion perthnasol, er enghraifft.

**7.16 Cyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Cynnullir cyfarfodydd cyffredin pwyllgorau trosolwg a chraffu'n unol â'r amserlen gyfarfodydd y mae'r Cyngor yn ei chymeradwyo yn ei Gyfarfod Blynyddol. Gellir

hefyd galw cyfarfodydd arbennig o bryd i'w gilydd, fel y bo'n briodol. Gall cadeirydd pwyllgor trosolwg a chraffu (neu'r is-gadeirydd os yw'r cadeirydd yn absennol) neu'r swyddog priodol alw cyfarfod o'r pwyllgor hwnnw, os credant fod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

**7.17 Cworwm**

Bydd cyfarfod gydag o leiaf chwarter o gyfanswm yr Aelodau'n bresennol yn gworwm. Os yw'r Cadeirydd, mewn unrhyw gyfarfod, yn cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol ac yn datgan ar sail hynny nad oes cworwm, caiff y cyfarfod ei ohirio ar unwaith.

Bydd y Cadeirydd yn pennu dyddiad ac amser ar gyfer trafod y materion hynny sy'n weddill ar y rhaglen. Os nad yw'n pennu dyddiad, trafodir y materion sy'n weddill yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

**7.18 Eitemau ar y Rhaglen**

7.18.1 Bydd gan bob aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu hawl i hysbysu'r Swyddog Priodol y dymuna gynnwys eitem ar y rhaglen sy'n berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor, i'w thrafod mewn cyfarfod o'r pwyllgor.

7.18,.2 Yna defnyddir y Weithdrefn Dewis Pwnc i benderfynu a ddylid cynnwys yr eitem dan sylw yn rhaglen waith y Pwyllgor ac/neu pa flaenoriaeth y dylid ei roi i'r eitem honno.

7.18.3 Ni ellir defnyddio'r weithdrefn hon ar gyfer ailystyried penderfyniadau'r Cabinet. I wneud hynny mae'n rhaid defnyddio'r weithdrefn galw i mewn a bennir yn Rheol 7.25.

7.18.4 Wrth dderbyn cais o'r fath bydd y Swyddog Priodol yn hysbysu Cadeirydd y pwyllgor trosolwg a chraffu ac yn sicrhau y caiff yr eitem ei chynnwys ar raglen y cyfarfod nesaf posib ar yr amod bod y Swyddog Priodol yn derbyn yr hysbysiad o leiaf deg diwrnod cyfan cyn diwrnod y cyfarfod hwnnw.

7.18.5 Bydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd, cyn gynted ag y bydd eu rhaglenni gwaith yn caniatáu, yn ymateb i geisiadau gan y Cyngor a/neu'r Cabinet i adolygu meysydd penodol o weithgaredd y Cyngor. Wrth wneud wneud hynny, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu dan sylw'n adrodd yn ôl i'r Cabinet a/neu'r Cyngor ynghylch ei ganfyddiadau ac unrhyw argymhellion.

**7.19 Adolygu a Datblygu Polisi**

7.19.1 Manylir ynghylch swyddogaeth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wrth ddatblygu Fframwaith Polisi a Chyllideb y Cyngor yn Rheolau Gweithdrefnau'r Gyllideb a'r Fframwaith Polisi yn Adran 16**Error! Reference source not found.**.

7.19.2 Wrth ddatblygu ymagwedd y Cyngor at faterion eraill nad ydynt yn rhan o'i Fframwaith Polisi a Chyllideb, gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gyflwyno cynigion ar gyfer datblygiadau i'r Cabinet os oes a wnelo'r rheiny â materion yn eu cylch gorchwyl.

7.19.3 Gall Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gynnal ymchwiliadau ac ymchwilio i'r dewisiadau posib ar gyfer y trywydd i'w ddilyn wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol, a gall benodi ymgynghorwyr ac aseswyr i'w gynorthwyo yn hynny o beth. Gall gynnal ymweliadau safle, arolygon cyhoeddus, cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu gwaith ymchwil a gwneud yr holl bethau eraill y mae'n rhesymol iddo gredu eu bod yn angenrheidiol i lywio ei drafodaethau. Gall ofyn i dystion ddod i'w annerch mewn cyfarfodydd ynglŷn ag unrhyw fater dan ystyriaeth a gall dalu ffi resymol a threuliau i unrhyw ymgynghorwyr, aseswyr a thystion am wneud hynny.

**7.20 <u>Adroddiadau gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu</u>**

7.20.1Wedi pennu argymhellion ynglŷn â chynigion i'w datblygu, bydd pwyllgor trosolwg a chraffu'n llunio adroddiad ffurfiol neu'n cyflwyno Cofnodion ei gyfarfod a'r Argymhellion i'r Swyddog Priodol fel bod y Cabinet yn eu hystyried (os yw'r cynigion yn gyson â'r gyllideb a'r fframwaith polisi presennol) neu'r Cyngor fel y bo'n briodol (er enghraifft, os yw'r argymhelliad yn gofyn am newid y gyllideb a'r fframwaith polisi a gymeradwywyd).

7.20.2 Os na fedr Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gytuno ar un adroddiad terfynol i'r Cyngor neu'r Cabinet, fel y bo'n briodol, gall lleiafrif o'r Pwyllgor lunio adroddiad i'r Cyngor neu'r Cabinet ei ystyried ynghyd ag adroddiad y mwyafrif.

7.20.3 Bydd y Cyngor neu'r Cabinet yn trafod adroddiad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyn pen mis ar ôl ei gyflwyno i Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu.

**7.21 <u>Sicrhau bod y Cabinet yn ystyried Adroddiadau Trosolwg a Chraffu</u>**

7.21.1 Caiff adroddiadau neu argymhellion pwyllgorau trosolwg a chraffu i'r Cabinet eu cynnwys ar raglenni cyfarfodydd y Cabinet (oni bai bod y Cabinet yn eu hystyried yng nghyd-destun eitem benodol arall ar y rhaglen) cyn pen chwe wythnos wedi i'r pwyllgor trosolwg a chraffu gwblhau ei adroddiad/argymhellion. Os nad yw'r Cabinet yn ystyried eitem felly cyn pen dau fis, bydd y Cabinet yn rhoi eglurhad o'r rhesymau i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

7.21.2 Os yw pwyllgor trosolwg a chraffu'n llunio adroddiad i'r Cabinet ei ystyried yng nghyswllt mater y mae'r Arweinydd wedi dirprwyo awdurdod i aelod arall o'r Cabinet benderfynu yn ei gylch, bydd y pwyllgor trosolwg a chraffu'n darparu copi o'r adroddiad iddo ef neu hi ei ystyried. Wrth wneud hynny, bydd y pwyllgor trosolwg a chraffu'n darparu copi i'r Swyddog Priodol. Mae'n rhaid i'r aelod y dirprwywyd pŵer i benderfynu iddynt ystyried yr adroddiad ac ymateb yn ysgrifenedig i'r pwyllgor trosolwg a chraffu cyn pen chwe wythnos ar ôl ei dderbyn. Cyn gwneud hynny, rhaid iddynt gyfeirio'r mater at y Cabinet i'w drafod yn y cyfarfod nesaf posib. N Dylid anfon copi o ymateb ysgrifenedig yr aelod at y

Swyddog Priodol a'r Arweinydd. Bydd yr Aelod hefyd yn mynd i gyfarfod o'r pwyllgor trosolwg a chraffu yn y dyfodol i gyflwyno eu hymateb.

**7.22 Hawliau Aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i Ddogfennau**

7.22.1 Mae gan aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu hawliau i weld dogfennau, fel y pennir yn Adran 15 o'r Cyfansoddiad hwn.

7.22.2 Nid oes dim yn y paragraff hwn yn atal cyswllt manylach rhwng y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel y bo'n briodol, gan ddibynnu ar y mater penodol dan sylw.

**7.23 Aelodau a Swyddogion yn Rhoi Cyfrif**

7.23.1 Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu adolygu a chraffu ar benderfyniadau a chamau gweithredu yng nghyswllt cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor sy'n dod o dan gylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw. Yn ogystal ag adolygu dogfennau, wrth gyflawni'r swyddogaeth graffu gall fod yn ofynnol i aelodau o'r Cabinet, y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Strategol, Penaethiaid Gwasanaethau a/neu uwch-swyddogion ymddangos gerbron y pwyllgor i drafod, yng nghyswllt materion y maent yn gyfrifol amdanynt:

(a) unrhyw benderfyniad neu gyfres o benderfyniadau;

(b) i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r Cyngor; ac/neu

(c) eu perfformiad

ac mae'n ddyletswydd ar y bobl hynny i fod yn bresennol os gofynnir iddynt wneud hynny

Yn hyn o beth, mae uwch-swyddogion yn cynnwys pob Pennaeth Gwasanaeth ac unrhyw uwch-swyddog arall fel y bo'n briodol. Os oes pryderon ynghylch priodoldeb y Swyddog a ddylai fod yn bresennol mewn cyfarfod, bydd y Prif Swyddog perthnasol yn trafod hyn â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gyda golwg ar sicrhau consensws.

7.23.2 Os oes angen i unrhyw Aelod neu Swyddog fod yn bresennol mewn cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu dan y ddarpariaeth hon, bydd Cadeirydd y Pwyllgor hwnnw yn hysbysu'r Swyddog Priodol. Bydd y Swyddog Priodol yna'n hysbysu'r Aelod neu Swyddog, yn ysgrifenedig os oes angen, gan roi o leiaf tri o ddiwrnodau gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol ynddo (oni chytunir fel arall). Bydd unrhyw rybudd yn nodi natur y mater y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol i roi cyfrif ohono, ac a oes angen cyflwyno unrhyw bapurau ar gyfer y Pwyllgor.

7.23.3 Wrth roi cyfrif i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, bydd yn ofynnol llunio adroddiad a chaiff yr Aelod neu'r Swyddog dan sylw ddigon o rybudd i fedru paratoi'r ddogfen honno.

7.23.4 Os bydd amgylchiadau eithriadol yn golygu na fedr yr Aelod neu Swyddog ddod i gyfarfod ar y dyddiad sy'n ofynnol, yna bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n ymgynghori â'r Aelod neu'r Swyddog i drefnu dyddiad arall.

**7.24 <u>Presenoldeb Eraill</u>**

Gall Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wahodd pobl heblaw'r rhai hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff 0 uchod i ddod i gyfarfod yn wirfoddol i'w annerch, trafod materion o bryder lleol ac/neu ateb cwestiynau. Gallai hynny fod, er enghraifft, er mwyn clywed gan drigolion, budd-ddeiliaid ac Aelodau a Swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, a bydd y Pwyllgor yn gwahodd pobl felly i fod yn bresennol.

**7.25 <u>Galw i Mewn</u>**

7.25.1 <u>Rheolau</u>

(a) Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, aelod unigol o'r Cabinet, un o bwyllgorau'r Cabinet neu bartneriaeth y mae'r Cabinet yn rhan ohoni, cyhoeddir y penderfyniad hwnnw, gan gynnwys ei gyhoeddi'n electronig lle bo modd, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib, ac yn sicr cyn pen saith o ddiwrnodau gwaith. Anfonir copi o gofnod pob penderfyniad o'r fath at bob aelod o'r Cyngor yn ystod yr un amser, gan y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad dan sylw.

(b) Bydd yr hysbysiad hwnnw'n nodi'r dyddiad cyhoeddi ac yn datgan y daw'r penderfyniad i rym ymhen pump o ddiwrnodau gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni elwir y penderfyniad i mewn yn unol â'r rheolau hyn.

Yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Swyddog Priodol yn galw penderfyniad i mewn i'r Pwyllgor graffu arno os gwneir cais am hynny gan dri o aelodau o'r Cyngor nad ydynt yn y Cabinet, a bydd wedyn yn hysbysebu'r sawl a wnaeth y penderfyniad o'i alw i mewn.

(c) Bydd y tri o aelodau sy'n llofnodi'r ddeiseb, gan ddefnyddio'r ffurflen briodol, yn gwneud ymdrech i drafod y mater â deiliad y portffolio perthnasol a/neu'r pennaeth gwasanaeth cyn arfer y weithdrefn galw i mewn.

(d) Bydd y Swyddog Priodol yn galw cyfarfod o'r pwyllgor ar ôl ymgynghori â chadeirydd y pwyllgor hwnnw, i'w gynnal cyn pen ugain o ddiwrnodau gwaith ar ôl galw'r penderfyniad i mewn.

(e) Os yw'r pwyllgor trosolwg a chraffu'n ystyried y penderfyniad ac yn dal yn bryderus yn ei gylch, gall ei gyfeirio'n ôl at yr unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad gan ofyn iddynt ei ailystyried, neu at y Cyngor os yw'r mater y tu hwnt i bwerau'r Cabinet, gan egluro natur ei bryderon yn ysgrifenedig. Os cyfeirir y penderfyniad yn ôl at y Cabinet, bydd y Cabinet yn ei ailystyried yn y cyfarfod nesaf ar yr amserlen, gan ddiwygio'r penderfyniad neu beidio, cyn mabwysiadu penderfyniad terfynol na fydd modd ei alw i mewn drwy'r weithdrefn.

(f) Os gwrthwynebir penderfyniad a bod y pwyllgor trosolwg a chraffu ddim yn cwrdd yn y cyfnod a bennir uchod, neu'n cwrdd heb gyfeirio'r mater yn ôl i'r unigolyn neu'r corff a wnaeth y penderfyniad, daw'r penderfyniad hwnnw i rym ar ddyddiad cyfarfod y pwyllgor trosolwg a chraffu neu ddiwedd y cyfnod arall hwnnw o ugain o ddiwrnodau gwaith.

(g) Er mwyn sicrhau na chamddefnyddir y weithdrefn galw i mewn na'i bod yn peri oedi afresymol, mae'n destun cyfyngiadau penodol. Sef:

i) penderfyniadau ynglŷn â gwariant neu gwtogi ar wasanaethau islaw £10,000;

ii) mân faterion neu fusnes arferol fel cymeradwyo Cofnodion, ffurfio Is-bwyllgorau'r Cabinet a phenodi Aelodau Cabinet iddynt;

iii) materion sy'n destun argymhellion gan y Cabinet i'r Cyngor;

vi) materion y mae'r Cyngor neu Bwyllgor Trosolwg a Chraffu eisoes wedi'u hystyried lle mae'r Cabinet i raddau helaeth yn dilyn argymhellion y Cyngor neu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu;

v) penderfyniadau Unigolyn Addas a Phriodol ac Is-bwyllgorau ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Dewisol a Lleddfu Caledi Treth y Cyngor.

Os yw'r Swyddog Monitro o'r farn bod Aelodau'n camddefnyddio'r weithdrefn galw i mewn, bydd yn gofyn i'r Pwyllgor Safonau a ddylid mabwysiadau cyfyngiadau llymach ar arfer y weithdrefn.

Gall y Swyddog Monitro atal unrhyw gais i alw penderfyniad i mewn os nad yw'n rhan o gwmpas y cynllun hwn

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n rhaid i'r holl Aelodau a wnaiff gais i alw penderfyniad i mewn fod yn bresennol yn y cyfarfod lle trafodir y mater dan sylw.

7.25.2 <u>Galw i Mewn a Materion Brys</u>

Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a bennir uchod yn berthnasol pan mae gofyn i'r Cabinet benderfynu ar frys. Bernir bod penderfyniad yn un brys os byddai unrhyw oedi oherwydd y weithdrefn galw i mewn yn creu perygl difrifol i fuddiannau cyhoeddus eraill y Cyngor. Bydd y cofnod o'r penderfyniad, a'r hysbysiad cyhoeddus ohono, yn datgan a yw'r unigolyn neu'r corff sy'n penderfynu o'r farn bod y penderfyniad yn un brys, ac felly'n nacau'r weithdrefn galw i mewn. Mae'n rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad arfaethedig yn rhesymol dan yr holl amgylchiadau ac y dylid ei drin fel mater brys. Os bydd y Cadeirydd yn absennol, bydd angen cydsyniad yr Is-gadeirydd. Os bydd y ddau ohonynt yn absennol, dylid gofyn am gydsyniad y Prif Weithredwr neu rywun y mae'n eu henwebu.

**7.26 Chwipiau Plaid**

Os bydd Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'n yn destun chwip plaid mewn perthynas â mater a ddaw gerbron y pwyllgor hwnnw, mae'n rhaid i'r Aelod dan sylw ddatgan bodolaeth y chwip a'i natur cyn cychwyn unrhyw drafodaeth ar y mater. Cofnodir y datganiad a manylion y trefniadau chwipio yng nghofnodion y cyfarfod.

**7.27 Gweithdrefn mewn Cyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

7.27.1 Bydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'u his-bwyllgorau yn trafod y materion canlynol:

i) cofnodion y cyfarfod diwethaf;

ii) datganiadau o gysylltiad;

iii) ystyried unrhyw fater a gyfeiriwyd at y pwyllgor er penderfyniad yn sgil galw penderfyniad i mewn;

iv) ymatebion y Cabinet i adroddiadau'r pwyllgor trosolwg a chraffu;

v) ystyried safbwyntiau pobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal ar unrhyw fater;

vi) ystyried unrhyw fater 'llywodraeth leol' a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gan unrhyw aelod o'r Cyngor dan ddarpariaethau'r weithdrefn 'Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu';

v) y busnes a gyflwynwyd fel arall ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod.

Bydd y Rheolau Gweithdrefnau ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r un fath â Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor, heblaw bod modd i Gadeirydd y cyfarfod gytuno i lacio rheolau'r drafodaeth gael eu llacio fel y gall y rhai hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod gyfrannu'n llawn, boed fel Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth arall, a chyfrannu at werth y cyfarfod.

7.27. 2 Pan mae'r pwyllgor trosolwg a chraffu'n cynnal ymchwiliadau (gyda'r nod o ddatblygu polisi, er enghraifft), gall y pwyllgor hefyd ofyn i bobl

berthnasol i fod yn bresennol i roi tystiolaeth mewn cyfarfodydd a gynhelir yn unol â'r egwyddorion canlynol:

i) y dylid cynnal yr ymchwiliad yn deg a rhoi cyfle i bob aelod o’r pwyllgor ofyn cwestiynau i’r bobl sy’n bresennol, cyfrannu a siarad;

ii) na ddylid disgwyl i’r rhai hynny sy’n bresennol ateb cwestiynau ynglŷn â meysydd penodol heb roi rhybudd iddynt o leiaf deg o ddiwrnodau gwaith cyn cyfarfod y pwyllgor

iii) bod y rhai hynny sy’n cynorthwyo’r pwyllgor drwy roi tystiolaeth yn cael eu trin â pharch a chwrteisi;

(iv) y cynhelir yr ymchwiliad er mwyn gwneud y gorau o effeithlonrwydd yr archwiliad neu’r dadansoddiad.

7.27.3 Yn dilyn unrhyw ymchwiliad neu adolygiad, bydd y pwyllgor/is-bwyllgor yn llunio adroddiad i'w gyflwyno i’r Cabinet a/neu’r Cyngor fel y bo’n briodol, ac yn rhannu ei adroddiad a’i ganfyddiadau â’r cyhoedd.

**7.28 <u>Materion yng Nghylch Gwaith mwy nag un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu</u>**

Os bydd mater i’w ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu’n perthyn hefyd i gylch gwaith Pwyllgor arall neu fwy nag un ohonynt, bydd Cadeiryddion y Pwyllgorau dan sylw’n penderfynu pa Bwyllgor fydd yn ei ystyried, ac os methant â chytuno, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a fydd yn penderfynu.

**7.29 <u>Galwad gan Gynghorydd i Weithredu</u>**

7.29.1 Mae’r weithdrefn Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu’n galluogi Aelodau Etholedig i ddod â materion o bwys lleol i sylw’r Cyngor drwy’r drefn graffu. Ni ddylid defnyddio’r weithdrefn hon ond pan fetho popeth arall.

7.29.2 Gall Aelod wneud cais i gynnwys eitem i’w hystyried ar raglen cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

7.29.3 Pennir y weithdrefn ar gyfer ymdrin â Galwad i Weithredu yn y Canllawiau i Gynghorwyr - Galwadau gan Gynghorwyr i Weithredu sydd ynghlwm wrth y Rheolau hyn yn Atodiad 1.

**ADRAN 7 – ATODIAD 1**

**GALWAD AR GYNGHORYDD I WEITHREDU: ARWEINIAD I GYNGHORWYR**

## 1 Rhagarweiniad

1.1 Cyflwynodd Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 nifer o ddarpariaethau newydd wedi'u hanelu at gryfhau democratiaeth leol. Cyflwynodd Adran 63 y Mesur ddarpariaeth ar gyfer 'Galwadau ar Gynghorwyr i Weithredu' (GGW) sy'n galluogi Cynghorwyr i gyfeirio materion o bwysigrwydd lleol i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

1.2 Bwriad GGW yw galluogi Cynghorwyr lleol a'u hetholwyr i gaffael ymateb gan Arweinyddiaeth eu Cyngor ar faterion o bwysigrwydd lleol. Dylid ystyried GGW fel un o gyfres o arfau sydd gan Aelodau etholedig yn eu meddiant i ddatrys materion lleol a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymuned. Yng Nghymru'n flaenorol, dim ond materion Trosedd ac Anhrefn lleol y gellid eu cyfeirio gan yr Aelod lleol i'r Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anhrefn dynodedig i weithredu arnynt a dylid nodi y bydd yr atgyfeiriadau trosedd ac anhrefn lleol hyn yn aros yn eu lle dan ddeddfwriaeth ar wahân.

1.3 Fel rhan o'u rôl arweinyddiaeth gymunedol, mae cynghorwyr erioed wedi ymdrechu i ddatrys materion ar ran eu trigolion lleol ac mae GGWau yn darparu llwybr ychwanegol i gynghorwyr ei dilyn os na fu'r ffyrdd arferol o benderfynu ar fater yn llwyddiannus a bod y mater yn bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad. Dylid nodi y dylid ystyried atgyfeiriad o dan y broses hon fel dewis olaf ar ôl i bob llwybr arall gael ei ddisbyddu.

1.4 Cyflwynwyd GGWau ochr yn ochr â grymoedd eraill ar gyfer craffu, gan gynnwys grymoedd i graffu ystod eang o gyrff sydd heb fod yn destun craffu gan awdurdodau lleol yn flaenorol. Bwriad GGWau yw galluogi unrhyw Aelod o'r Cyngor i gyfeirio at un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 'fater llywodraeth leol' sy'n syrthio o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

## 2 Sut dylwn ymdrechu fel rheol i ddatrys mater lleol yn fy ardal?

2.1 Gall Cynghorwyr ddatrys materion lleol mewn nifer o ffyrdd ar ran eu trigolion fel a restrwyd yn Arweiniad Statudol Llywodraeth Cymru o Fesur Llywodraeth Leol 2011:

- Trafodaethau anffurfiol gyda swyddogion neu Gynghorwyr eraill;
- Trafodaethau anffurfiol gyda chynrychiolwyr partner;
- Atgyfeiriad at gyrff 'craffu' eraill megis Cynghorau Iechyd Cymuned neu bwyllgor archwilio mewnol;
- Trafodaethau ffurfiol gyda swyddogion a Chynghorwyr;
- Llythyrau ffurfiol i'r Aelodau Gweithredol;
- Gofyn cwestiynau yn y Cyngor Llawn;

- Cyflwyno rhybudd o gynnig i'r Cyngor Llawn;
- Trefnu cyfarfodydd cyhoeddus;
- Defnyddio deisebau;
- Gwneud cwyn;
- Cwestiynau yn y Cyngor llawn;
- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth
- Cyfathrebu gydag ACau neu ASau lleol;
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu ymgyrchoedd seiliedig ar yr e-bost.

2.2 Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gallai'r Cynghorwyr ddewis gwahanol lwybrau ar gyfer materion penodol. Os oes mater heb gael ei ddatrys ar ôl dihysbyddu pob llwybr posibl arall, gall Cynghorydd lleol ei gyfeirio at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu priodol.

**3. Beth yw Galwad ar Gynghorydd i Weithredu**

3.1 Er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn GGW fel eitem agenda i'w thrafod mewn un o'u cyfarfodydd, **rhaid** i'r mater:-

effeithio naill ai ar bob rhanbarth etholiadol y Cynghorydd neu ran ohono neu raid iddo effeithio ar rywun sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal honno.

3.2 Fodd bynnag, nid oes angen i Gynghorydd gael atgyfeiriad gan etholwr er mwyn dechau ar y broses. Mae'n bwysig cydnabod nad yw GGW yn cael ei sicrhau i ddatrys problem benodol, ond gall ddarparu dull i drafod y problemau hynny a, thrwy drafod, ymdrechu i'w goresgyn.

**4. Sut a phryd dylwn i wneud GGW**

4.1 Darperir siart llif sy'n dangos y broses yn **Atodiad 1**. Gallai Cynghorydd gychwyn ar y broses trwy lenwi'r ffurflen yn **Atodiad 2**. Mae copïau pellach ar gael gan eich Swyddog Cefnogi Craffu. Mae'n bwysig bod y Cynghorydd lleol yn nodi pa gamau a ddisgwylir gan yr atgyfeiriad. Ar ôl llenwi'r ffurflen, dylid ei dychwelyd i'ch Swyddog Cefnogi Craffu a fydd yn cofnodi ac yn cydnabod yr atgyfeiriad ymhen 5 niwrnod gwaith, er mwyn olrhain ei gynnydd ac anfon copi o'r ffurflen ymlaen at Bennaeth y Gyfraith a Llywodraethu (Y Swyddog Priodol).

4.2 Bydd y Swyddog Priodol yn cadarnhau ydy'r atgyfeiriad yn bodloni'r gofynion a amlinellir yn adran 3 uchod ai peidio i'w galluogi i gael ei roi ar yr agenda i'w drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor. Mae'r Swyddog Priodol yn cadw'r hawl i eithrio o'r agenda unrhyw fater sy'n flinderus, yn wahaniaethol neu fel arall yn anghyfreithlon o bosibl, a bydd y Cynghorydd yn cael gwybod am y canlyniad hwn cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**5. Meini prawf i'w dilyn gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

5.1 Mae i fyny i aelodau'r Pwyllgor benderfynu p'un ai i fynd â'r mater ymhellach ai peidio, ac os felly, ar ba ffurf. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio'r meini prawf

canlynol i benderfynu ydy'r atgyfeiriad yn briodol i'w ystyried gan y Pwyllgor ai peidio:-

- Ydy'r Pwyllgor yn fodlon fod y Cynghorydd lleol wedi gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys y mater? Ydy'r ymatebion a ddaeth i law'r Cynghorydd atgyfeirio'n dangos nad yw'r mater yn cael ei symud yn ei flaen?
- Ydy'r Pwyllgor wedi ystyried mater tebyg yn ddiweddar – os felly, ydy'r amgylchiadau neu'r dystiolaeth wedi newid?
- Oes mater tebyg neu gysylltiedig sy'n destun adolygiad ar y rhaglen waith bresennol? Gallai fod yn fwy priodol cysylltu'r mater newydd ag adolygiad presennol, yn hytrach na chynnal gwrandawiad GGW ar wahân. Dylid ystyried pwysau amser perthnasol ar ddatrys y GGW.
- Ydy pob maes gwasanaeth neu sefydliad partner perthnasol wedi cael gwybodaeth ac wedi cael digon o amser i ddatrys y mater? Pa ymateb mae'r Cynghorydd wedi'i gael?
- Ydy hwn yn achos sy'n cael ei ganlyn neu y dylai gael ei ganlyn trwy weithdrefn gwyno gorfforaethol y Cyngor?
- Ydyw'n ymwneud â mater "lled-farnwrol" neu benderfyniad fel cynllunio neu drwyddedu?
- Ydy'r mater yn ymwneud â phryder lleol gwirioneddol, sy'n effeithio ar y gymuned leol yn hytrach na mater personol?
- Ydy hwn yn fater y mae math arall o graffu lleol yn edrych arno ar hyn o bryd?
- Ac, fel gyda phob craffu, oes gan y mater y potensial i graffu lunio argymhellion a allai gael eu gweithredu'n realistig ac arwain at welliannau i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn ward yr aelod?

**Sylwch**: Dylid cyfeirio atgyfeiriadau Trosedd ac Anhrefn at y Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn dynodedig.

5.2 Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu peidio â derbyn y GGW, rhaid iddo roi gwybod i'r Cynghorydd am y penderfyniad a'r rhesymau amdano.

5.3 Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu derbyn GGW, bydd y Cynghorydd yn cael gwybod am y Protocol a gytunwyd e.e. bydd y Cynghorydd yn cael rhybudd digonol (isafswm o 10 diwrnod clir) o ddyddiad gwrandawiad y Pwyllgor. Gofynnir i'r Cynghorydd fynychu'r Pwyllgor a chael gwybod y bydd ganddo ef/ganddi hi 5 munud er mwyn annerch y Pwyllgor. Wedyn, gallai'r Pwyllgor ddymuno cwestiynu'r Cynghorydd ymhellach cyn penderfynu sut mae'n bwriadu symud y mater yn ei flaen. Gallai hyn gynnwys:-

- Gofyn i'r awdurdodau cyfrifol perthnasol ymateb i'r GGW
- Sefydlu grŵp tasg a gorffen i ymgymryd ag adolygiad manylach
- Gofyn am dystiolaeth bellach ac/neu ddod â thystion i gyfarfod yn y dyfodol. Mae gan y Pwyllgor y grym i ofyn i 'unigolion dynodedig' fel cynrychiolwyr cyrff/asiantaethau cyhoeddus eraill fynychu, lle bo'n

berthnasol, ac i ofyn am wybodaeth. (Nid yw Llywodraeth Cymru eto wedi cyhoeddi rhestr o ‘unigolion dynodedig’.)

## 6 Canlyniadau potensial GGW

6.1 Gallai’r Pwyllgor:

- benderfynu ei fod yn fater cymhleth sy’n gofyn am ymchwiliad pellach a chomisiynu adolygiad craffu o’r mater;
- ysgrifennu ymateb a gwneud argymhellion ar GGW i awdurdod cyfrifol perthnasol;
- Penderfynu nad yw camau pellach yn briodol gan roi ei resymau.

6.2 Ar ôl i’r Pwyllgor gwblhau ei waith, bydd y Cynghorydd a wnaeth yr atgyfeiriad yn cael copi o unrhyw ymateb neu’r argymhellion a wnaed.

## 7 Amserlenni i ddelio â GGW

7.1 Dan amgylchiadau eithriadol, er enghraifft lle ceir cyfyngiadau amser na ellir eu hosgoi, gellir galw cyfarfod Pwyllgor arbennig.


7.2 Os bydd GGW yn arwain at argymhellion i’r Cabinet neu i’r awdurdodau cyfrifol, gofynnir iddynt roi ymateb i’r argymhellion ymhen 28 diwrnod a 2 fis yn y drefn honno.

7.3 Bydd y Pwyllgor yn monitro gweithrediad unrhyw argymhellion fel rhan o’i flaenraglen waith.

## 8 Adolygiad o’r Arweiniad hwn

8.1 Seilir yr arweiniad hwn ar fodel a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr (ACSeS) ym mis Hydref 2009. Bydd ACSeS yn adolygu eu harweiniad enghreifftiol yng ngoleuni profiad o ddefnydd awdurdodau lleol yng Nghymru o’r gweithdrefnau hyn, a gallai’r arweiniad hwn felly gael ei ddiwygio’n unol â hynny.

## Siart Llif ar gyfer Galwad gan Gynghorwyr i Weithredu



Atodiad 2

**Galwad ar Gynghorydd i Weithredu**

**At sylw:** ………………………………….(enw a theitl y Swyddog Priodol)

**Gan**: Y Cynghorydd ________________________________

**Rhanbarth Etholiadol**: ________________________________________

**Manylion cyswllt**: Ffôn: ________________________________

E-bost: ________________________________

| | |
|---|---|
| **PWNC** | |
| **Manylion**:<br><br>Esboniwch yn gryno beth yw'r mater a sut mae'n effeithio ar eich ward | |
| **Camau a gymerwyd hyd yma**:<br><br>Esboniwch pa gamau a gymerwyd, gyda phwy, er mwyn ceisio datrys y mater (ticiwch y camau rydych chi wedi'u cymryd hyd yma) | □ Trafodaethau anffurfiol gyda swyddogion neu aelodau eraill<br><br>□ Aethpwyd at y Tîm Plismona'r Gymdogaeth perthnasol<br><br>□ Trafodaethau ffurfiol gyda swyddogion ac aelodau<br><br>□ Llythyr ffurfiol i'r Aelod Cabinet ar ran yr etholwyr<br><br>□ Cwestiwn yn y Cyngor Llawn<br><br>□ Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor Llawn<br><br>□ Cyfarfod cyhoeddus<br><br>□ Deiseb<br><br>□ Cwyn<br><br>□ Cais Rhyddid Gwybodaeth<br><br>□ Cyfathrebu ag ASau lleol<br><br>□ Ymgyrchoedd seiliedig ar y we neu'r e-bost<br><br>□ Camau ychwanegol a manylion pellach:<br><br>……………………………………………………………………...<br><br>……………………………………………………………………… |

| | |
|---|---|
| | ………………………………………………………………………………………<br><br>……………………………………………………………………………………… |
| **Canlyniad Disgwyliedig**<br><br>Disgrifiwch y canlyniad y gobeithiwch ei gael trwy'r atgyfeiriad hwn | |
| **Papurau sydd ynghlwm**:<br><br>Rhestrwch y dogfennau sydd ynghlwm a ddylai dystio effaith y mater, y camau a gymerwyd ac unrhyw ymatebion a ddaeth i law. | |

**Bydd y meini prawf canlynol yn cael eu hystyried pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu p'un ai i symud ymlaen â'ch GGW:**

- A wnaed pob ymdrech resymol i ddatrys y mater? Ydy'r ymatebion a gawsoch yn dangos nad yw'r mater yn cael ei symud yn ei flaen?
- Ydy'r pwyllgor wedi ystyried mater tebyg yn ddiweddar – os ydy, ydy'r amgylchiadau neu'r dystiolaeth wedi newid?
- Oes mater tebyg neu gysylltiedig sy'n destun adolygiad ar y rhaglen waith bresennol? Gallai fod yn fwy priodol cysylltu'r mater newydd ag adolygiad presennol, yn hytrach na chynnal gwrandawiad LCDR ar wahân. Dylid ystyried pwysau amser perthnasol ar ddatrys yr LCDR.
- Ydy pob maes gwasanaeth perthnasol neu sefydliad partner wedi cael gwybod ac wedi cael digon o amser i ddatrys y mater? Pa ymateb a gawsoch?
- Ydy hwn yn achos sy'n cael ei ganlyn neu a ddylai gael ei ganlyn trwy weithdrefn gwyno gorfforaethol y Cyngor?
- Ydyw'n ymwneud â mater "lled-farnwrol" neu benderfyniad fel cynllunio neu drwyddedu?
- Ydy'r mater yn ymwneud â phryder lleol gwirioneddol, sy'n effeithio ar y gymuned leol yn hytrach na mater personol?
- Ydy hwn yn fater y mae math arall o graffu lleol yn edrych arno ar hyn o bryd?
- Ac, fel gyda phob craffu, oes gan y mater a gyfeiriwyd y potensial i graffu lunio argymhellion a allai gael eu gweithredu'n realistig ac arwain at welliannau i unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn eich rhanbarth etholiadol.

**Ystyriwch a allai'r Pwyllgor ystyried fod eich atgyfeiriad yn rhy gynnar. Ystyriwch a ddihysbyddwyd gwelliannau potensial eraill cyn gwneud atgyfeiriad. Dylai'r aelodau fod yn ymwybodol os gwneir atgyfeiriad yn rhy gynnar, mae'r Pwyllgor yn debygol o wrthod delio â'r mater, ar sail y meini prawf a amlinellir uchod. Os ydy'r Swyddog Priodol o'r farn fod yr atgyfeiriad yn rhy gynnar, bydd ef/hi'n rhoi gwybod i chi gan hynny.**

**ADRAN 7 – ATODIAD 2**

## FFURFLEN TESTUN CRAFFU

| | |
|---|---|
| Teitl y Testun Arfaethedig | |
| Ai diben cofrestru'r testun yw craffu arno neu fynegi barn ar bolisi? | |
| Sut y dechreuwyd y testun hwn?<br><br>• Polisi;<br>• Trafodaeth gyda Chynghorydd;<br>• Argymhelliad o Bwyllgor; neu<br>• Arall | |
| Enw'r unigolyn sy'n cofrestru'r testun | |
| Cyfeiriad e-bost cyswllt | |
| Pa Bwyllgor Trosolwg a Chraffu?<br><br>• Economi a Lle<br>• Addysg a Sgiliau<br>• Cyllid ac Adnoddau<br>• Gofal Cymdeithasol ac Iechyd<br>• Ddim yn gwybod | |
| A oes angen i'r Cabinet wneud penderfyniad?<br><br>Oes, Nac oes, Ddim yn gwybod | |

| | |
|---|---|
| Beth yw'r canlyniad disgwyliedig (argymhelliad)? | |
| Wrth ystyried y testun, sut all craffu ychwanegu gwerth at y broses gwneud penderfyniadau? | |
| A fyddai Cynghorau eraill, partneriaid, gwasanaethau allanol, sector gwirfoddol neu fudd y cyhoedd yn gallu ychwanegu gwerth at y testun? | |

| | |
|---|---|
| | |
| **Os byddwch yn rhoi tic ar gyfer o leiaf 5 o'r meini prawf cymhwysedd isod, bydd eich testun yn cael ei gynnwys ar y Rhaglen Waith:-** | |
| A yw Craffu yn debygol o arwain at wella gwasanaeth neu fuddion mesuradwy eraill? | |
| Budd y Cyhoedd (h.y. o ran bod y ddau gynnig o fudd i'r cyhoedd a chanfyddiadau preswylwyr) | |
| A oes adnoddau digonol/ cyfleoedd realistig i dderbyn adnoddau digonol er mwyn cyflawni'r amcanion? | |
| Arwyddocâd cenedlaethol/ lleol/ rhanbarthol e.e. Maes blaenoriaeth llywodraeth ganolog, yn ymwneud â threfniadau cydweithio ar lefel leol yng Nghonwy neu mewn cyd-destun rhanbarthol ehangach. | |
| A yw'r testun wedi'i nodi fel risg ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol neu'n destun adolygiad gan archwilydd allanol? | |

| | |
|---|---|
| **A yw'r testun yn gysylltiedig â'r nodau a'r blaenoriaethau corfforaethol neu graffu sydd wedi'u rhestru isod?** | |
| Mae pobl yng Nghonwy yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd. | |
| Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir gydag economi lewyrchus gyda diwylliant yn ganolog iddi. | |
| Mae pobl yng Nghonwy wedi'u haddysgu ac yn fedrus. | |

| | |
|---|---|
| Mae gan bobl yng Nghonwy fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy’n gwella safon eu bywyd. | |
| Mae pobl yng Nghonwy yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel. | |
| Mae pobl yng Nghonwy yn iach. | |
| Mae pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir ble mae’r Gymraeg yn ffynnu, a gall pobl gymryd rhan mewn pob agwedd ar fywyd cymunedol yn Gymraeg. | |
| Mae pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais a gallant gyfrannu at gymuned ble mae eu cefndir a’u hunaniaeth yn cael ei werthfawrogi a’i barchu. | |
| Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn wydn. | |

**ADRAN 7 – ATODIAD 3A**
**TROSOLWG A CHRAFFU PROTOCOL YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD**

**1. Pwrpas y Protocol**

Sefydlwyd y protocol hwn i sicrhau dealltwriaeth glir a chynnig canllawiau ynglŷn â'r weithdrefn er mwyn i aelodau'r cyhoedd allu ymgysylltu â gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.

Nod y protocol yw rheoli disgwyliadau'r cyhoedd o ran amlinellu sut y bydd unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol yn cael ei defnyddio a manylu ynglŷn â sut a phryd y bydd adborth yn cael ei ddarparu.

**2. Defnyddio'r Protocol**

Mae'r protocol yn berthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n byw neu'n gweithio ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a busnesau, ysgolion, colegau a grwpiau gwirfoddol neu gymunedol lleol.

Nid yw'r protocol yn berthnasol i Gynghorwyr Bwrdeistref Sirol Conwy gan fod prosesau eraill wedi eu sefydlu ar gyfer cyflwyno eitemau i'w hystyried a chynnig sylwadau i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

**3. Sut i gymryd rhan**

Mae nifer o ffyrdd y gall y cyhoedd ymgysylltu â'r broses Drosolwg a Chraffu.

**4.** Mae'r Cynllun Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer ein holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n cael ei ddiweddaru'n gyson a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Yn yr un modd, mae'r rhaglenni ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan o leiaf dri diwrnod gwaith clir cyn bod y cyfarfod yn cael ei gynnal.

**5. Datgan Cysylltiad â rhai Pynciau neu Etholaethau**

Mae gwefan y Cyngor yn galluogi i unrhyw un ddatgan cysylltiad naill ai â phwnc(pynciau) penodol neu etholaeth(au) a chael neges e-bost i'w hysbysu os bydd yr eitem a ddewiswyd ganddynt wedi ei chynnwys ar raglen.

**6. Mynychu Cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Mae pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:

- Cyllid ac Adnoddau
- Economi a Lle
- Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
- Addysg a Sgiliau

Gyda'i gilydd, mae'r pwyllgorau hyn yn cwmpasu holl swyddogaethau'r Fwrdeistref Sirol a hefyd y gwasanaethau hynny a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yn yr ardal.

Cynhelir holl gyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gyhoeddus ac mae croeso i unrhyw un fod yn bresennol i wrando ar yr hyn a drafodir. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd Trosolwg a Chraffu'n cael eu cynnal yn Siambr y Cyngor ym Modlondeb, Conwy. Mae seddau ar gael yng nghefn Siambr y Cyngor i aelodau'r cyhoedd ac mae dyddiadau'r cyfarfodydd sydd i'w cynnal yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Ar achlysuron prin yn unig, pan fo mathau penodol o wybodaeth yn cael eu trafod, ni chaniateir i aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Mae'r Cyngor yn awyddus i roi gwybodaeth i bobl am waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ogystal â chael eich barn am y pynciau y maent yn eu hystyried. Mae nifer o ffyrdd y gallwch leisio eich barn i'r Cynghorwyr.

## 7. Cyflwyno sylwadau

Os oes gennych ddiddordeb arbennig mewn pwnc sy'n cael ei drafod gallwch anfon e-bost neu ysgrifennu at y Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau a fydd yn sicrhau bod eich sylwadau'n cael eu pasio ymlaen i'r Cadeirydd a'r Pwyllgor (os yw'n briodol).

## 8. Awgrymu pwnc i'w ystyried

Mae ein Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n croesawu awgrymiadau am bynciau i'w hadolygu a byddant yn ystyried materion a gyflwynir gan unrhyw un sy'n byw, gweithio neu'n astudio ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Gallwch wneud hyn trwy ysgrifennu at Swyddog Cefnogi Craffu'r Cyngor neu trwy lenwi Ffurflen awgrymiadau Trosolwg a Chraffu ar wefan y Cyngor.

I fod yn gymwys, rhaid i geisiadau:

- Effeithio ar grŵp neu gymuned o bobl (ni fydd pwyllgor craffu fel arfer yn ystyried cwynion am wasanaeth unigol)
- Bod yn gysylltiedig â gwasanaeth, digwyddiad neu fater y mae'r Cyngor yn ymwneud yn helaeth ag ef
- Ni ddylai fod yn fater y mae pwyllgor craffu wedi ei ystyried yn ystod y 12 mis diwethaf
- Ni ddylai fod yn fater sy'n cael sylw gan Bwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol arall (e.e. materion cynllunio) ac eithrio os yw'r mater yn gysylltiedig â phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor

Cewch gydnabyddiaeth ein bod wedi derbyn eich cais o fewn 5 diwrnod gwaith. Bydd eich ffurflen awgrymiadau'n cael ei hystyried gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol, ynghyd â'r Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y mater yr ydych wedi ei godi.

Mae tri chanlyniad posibl i’r materion a godir trwy gyfrwng ffurflenni cyfeirio Craffu:

- Eu derbyn a chraffu arnynt yn syth – bydd y mater yn cael ei gynnwys ar amserlen waith y Pwyllgor Craffu.
- Gohirio’r mater tan yn ddiweddarach – bydd y mater yn cael sylw pan fydd gan y Pwyllgor amser.
- Gwrthod craffu ar y mater – ni fydd y mater yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, ond bydd y mater yn cael ei gofnodi ac mae'n bosibl y bydd yn cael sylw’n ddiweddarach.

Os penderfynir nad yw mater yn addas i’w ystyried, neu ei fod yn rhy debyg i bwnc sydd wedi ei ystyried yn ddiweddar, bydd Swyddog Cefnogi Craffu’n cysylltu â’r aelod o’r cyhoedd i esbonio pam nad yw wedi ei dderbyn.

Mae’r pynciau y mae’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu’n mynd i’w hystyried yn ffurfio ’Cynllun Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor

Ni allwn dderbyn pynciau sy’n gysylltiedig â’r canlynol: materion barwnol neu led-farnwrol neu rai yr ymchwilir iddynt ar hyn o bryd; ceisiadau neu apeliadau cynllunio, trwyddedu neu grantiau unigol; aelodau neu weithwyr y Cyngor a enwir; gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig (fel y disgrifir yn rheolau gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth y Cyngor) neu sy’n golygu bod angen ei datgelu; materion pleidiau gwleidyddol neu ddeunydd difrïol.

## 9. Deisebau

Mae creu neu gymryd rhan mewn deiseb yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymuned a sefydliadau gyfrannu at yr hyn mae’r Cyngor yn ei wneud. Mae’n caniatáu i bobl godi materion sy’n achosi pryder i’r cyhoedd, gan roi cyfle i Gynghorwyr ystyried yr angen am newid.

Yn gyffredinol, dylai deiseb gynnwys teitl byr a datganiad byr yn cynnwys pwnc y ddeiseb. Dylai’r ddeiseb nodi’n glir pa gamau mae’r deisebwr yn dymuno i’r Cyngor eu cymryd a dangos y canlynol:

- enw’r deisebwr
- cyfeiriad cyswllt y prif ddeisebwr y dylid anfon holl gyfathrebu sy’n ymwneud â’r ddeiseb
- enw a chyfeiriad unrhyw unigolyn sy’n cefnogi’r ddeiseb
- dylai deisebau papur hefyd gynnwys llofnod

Dylai deisebau gael eu cyflwyno gan Gynghorydd a gellir eu cyflwyno mewn cyfarfod o’r Cyngor, y Cabinet neu’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (yn dibynnu ar y mater a’r cyngor gan Swyddog Monitro’r Cyngor). Mae’r rheolau ynglŷn â chyflwyno deisebau yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Mae yna wybodaeth bellach ynglŷn â pharatoi deiseb ar wefan y Cyngor.

## 10. Bod yn Dyst

Un o’r prif ffyrdd y gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu (ac unrhyw Grwpiau Tasg a Gorffen y maent yn eu sefydlu) gasglu’r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i gyfrannu at eu trafodaethau yw trwy wahodd unigolion sydd â gwybodaeth benodol am y pwnc i ddod i’w cyfarfodydd. Mae hyn yn galluogi i’r Cynghorwyr wneud argymhellion ar sail gwell gwybodaeth ond mae hefyd yn ffordd i unigolion a sefydliadau y tu allan i’r Cyngor leisio eu barn.

Yn gyffredinol, bydd y rhain yn sylwadau gan rwydweithiau cymunedol cydnabyddedig a grwpiau cynrychiolwyr, y trydydd sector, Cynghorau Tref a Chymuned, asiantaethau sector cyhoeddus.

Bydd cyfraniadau a gyflwynir gan dystion yn cael eu crynhoi yng nghofnodion y cyfarfod a’u cydnabod yn briodol mewn unrhyw adroddiad terfynol.

Rhoddir gwybodaeth am y canlyniad yn syth i’r holl gyfranwyr ynghyd â gwahoddiad i fynychu’r cyfarfod lle cyflwynir yr adroddiad terfynol. Bydd yr un hawl gan gyfranwyr i siarad, ond nid i bleidleisio, yn y pwyllgor, ag sydd gan aelod o’r pwyllgor.

Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â bod yn dyst ar gael ar wefan y cyngor.

**11. Trefniadau ar gyfer siarad yn gyhoeddus mewn Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Gall unrhyw un sy’n byw neu’n gweithio o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy wneud cais i siarad mewn cyfarfodydd o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn cyfrannu at drafodaeth am bwnc. I wneud hyn, rhaid iddynt gofrestru trwy lenwi’r ffurflen gais briodol a’i hanfon at y Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau o leiaf 24 awr cyn y cyfarfod. Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn yn cael eu gwrthod yn awtomatig.

Ar y ffurflen gais gofynnir am wybodaeth ynglŷn â natur y cysylltiad a’r cyfraniad y gallent ei wneud. Bydd Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor, ynghyd â’r Swyddog Cefnogi Craffu, yn trafod hyn gyda Chadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor, gan esbonio natur y cyfraniad. Os yw’r Cadeirydd o’r farn y gallai aelod o’r cyhoedd wneud cyfraniad dilys at ddealltwriaeth y pwyllgor o’r mater o dan yr amgylchiadau, bydd yn cydsynio. O ystyried ei bod yn debygol y bydd eitemau eraill ar y rhaglen y dylid hefyd neilltuo amser priodol i’w trafod, bydd y Cadeirydd yn cyfyngu ar nifer y cyfranwyr cyhoeddus i ddau. Bydd aelodau’r cyhoedd sy’n mynychu cyfarfod o’r pwyllgor i siarad yn cael eu cyfyngu i dri munud yr un.

Mae penderfyniad y Cadeirydd i ganiatáu i aelodau o’r cyhoedd wneud cyfraniad ai peidio, yn derfynol.

Mae aelodau’r cyhoedd sy’n bresennol ac yn siarad yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi ymrwymo i’r rheolau ymddygiad a’r weithdrefn sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor a bydd disgwyl iddo ef neu hi barchu rheolau’r Cadeirydd.

Dylai darpar gyfranwyr fod yn ymwybodol na all y Cyngor dderbyn pynciau sy’n gysylltiedig â’r canlynol: materion barwnol neu led-farnwrol neu rai yr ymchwilir iddynt ar hyn o bryd; ceisiadau neu apeliadau cynllunio, trwyddedu neu grantiau unigol; aelodau neu weithwyr y Cyngor a enwir; gwybodaeth

gyfrinachol neu eithriedig (fel y disgrifir yn rheolau gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth y Cyngor) neu sy'n golygu bod angen ei datgelu; materion pleidiau gwleidyddol neu ddeunydd difrïol.

Mae canllawiau pellach ynglŷn â threfniadau ar gyfer siarad yn gyhoeddus ar gael ar wefan y Cyngor.

Manylion cyswllt:

Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bodlondeb

Conwy

LL32 8DU

E-bost: pwyllgorau@conwy.gov.uk

Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Bodlondeb

Conwy

LL32 8DU

E-bost: pwyllgorau@conwy.gov.uk

**ADRAN 7 – ATODIAD 3B**

**PROTOCOL YMGYSYLLTIAD CYHOEDDUS TROSOLWG A CHRAFFU DEISEBAU (YN CYNNWYS E-DDEISEBAU)**

## 1. Deisebau (yn cynnwys E-ddeisebau)

Mae creu neu gymryd rhan mewn deiseb yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae'n caniatáu i bobl godi materion sy'n peri pryder, gan roi cyfle i Gynghorwyr ystyried yr angen am newid. Gyda'r bwriad o'i gwneud yn haws i gyflwyno deisebau, mae'r Cyngor wedi cyflwyno cyfleuster e-ddeiseb.

Cyn cyflwyno deiseb dylech wirio yn gyntaf gyda'ch Cynghorydd lleol i weld a yw'r Cyngor eisoes yn gweithredu ar eich pryderon ac mai'r Cyngor yw'r corff mwyaf priodol i dderbyn eich deiseb.

Os ydych yn creu deiseb byddwch yn dod yn ddeisebydd 'arweiniol' a bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth bersonol sylfaenol i'r Cyngor fel y gallwn gysylltu â chi.

Os ydych yn llofnodi e-ddeiseb bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth bersonol sylfaenol i ni, gan gynnwys cyfeiriad e-bost, er mwyn ein galluogi i wirio bod y 'llofnodion' a gasglwyd yn ddilys. Pan fyddwch wedi cyflwyno'r wybodaeth hon byddwch yn cael e-bost ar y cyfeiriad e-bost a roddwyd gennych. Bydd yr e-bost yn cynnwys dolen gyswllt y mae'n rhaid i chi glicio arni er mwyn cadarnhau bod y cyfeiriad e-bost yn ddilys. Unwaith y bydd y cam hwn wedi'i gwblhau, bydd eich 'llofnod' yn cael ei ychwanegu at yr e-ddeiseb. Bydd eich enw (ond dim manylion eraill) yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr e-ddeiseb.

## 2. Beth sy'n digwydd pan mae'r ddeiseb (yn cynnwys e-ddeiseb) yn gyflawn a sut caiff ei chyflwyno?

Bydd angen i'ch e-ddeiseb gynnwys:

- Teitl
- Datganiad yn nodi'n benodol pa gamau yr hoffech i'r Cyngor eu cymryd.
- Unrhyw wybodaeth y teimlwch sy'n berthnasol i'r ddeiseb a'r rhesymau pam yr ydych yn ystyried bod y camau gofynnol yn angenrheidiol. Gallwch gynnwys dolenni cyswllt i wefannau perthnasol eraill sy'n ymwneud ag e-ddeiseb.
- Os byddwch chi'n cyflwyno e-ddeiseb,
  - Dyddiad ar gyfer pryd yr hoffech i'ch e-ddeiseb fynd yn fyw ar y wefan. Gall gymryd hyd at 5 diwrnod i'r Gwasanaethau Democrataidd wirio eich cais e-ddeiseb a thrafod unrhyw faterion gyda chi, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'r cais mewn da bryd.

- Dyddiad ar gyfer pryd y bydd eich e-ddeiseb yn dod i ben â chasglu llofnodion. Er mwyn cyflawni'r effaith fwyaf, efallai y byddwch am bennu'r dyddiad hwn fel y bydd yr e-ddeiseb yn cael ei chyflwyno cyn y dyddiad y cynhelir trafodaeth neu y gwneir penderfyniad ar y mater. Byddwn yn cynnal eich e-ddeiseb am hyd at bedwar mis ond byddai disgwyl i'r rhan fwyaf fod yn fyrrach na hyn.

- Eich enw - fel deisebydd arweiniol, bydd eich enw yn cael ei ddangos gyda'ch e-ddeiseb ar y wefan.

- Pan fydd e-ddeiseb yn cyrraedd ei dyddiad cau, ni fyddwch yn gallu ei harwyddo ar-lein mwyach. Bydd y rhestr o lofnodwyr yn cael eu casglu gan y Gwasanaethau Democrataidd a chysylltir â'r deisebydd arweiniol ynghylch cyflwyno e-ddeiseb wedi'i chwblhau.

- Rhaid i ddeisebau gael eu llofnodi gan o leiaf 100 o bobl, ond bydd y Cyngor yn defnyddio'i ddisgresiwn lle ceir llai na 100 o lofnodwyr mewn achosion lle ceir cefnogaeth leol glir ar gyfer gweithredu (e.e. lle mae trigolion cymuned fach wedi deisebu ar gyfer mesurau arafu traffig).

Yn dibynnu ar y pwnc a'r cyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor, gellir cyflwyno'r ddeiseb mewn cyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet neu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Gall y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu drafod y mater yn llawn a gwneud argymhelliad (argymhellion) i'r Cyngor neu'r Cabinet, fel y bo'n briodol.

Os bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, bydd y deisebydd arweiniol yn cael ei wahodd i fynychu'r cyfarfod a bydd yn cael cynnig y cyfle i gyflwyno'r ddeiseb, a fydd yn cynnwys crynodeb tri munud ynghylch cynnwys y ddeiseb a nifer y llofnodion. Fel arall, gall y deisebydd arweiniol ofyn i Gynghorydd gyflwyno'r ddeiseb (y Cynghorydd lleol fyddai hwn fel arfer). Os na fydd y deisebydd arweiniol yn bresennol i gyflwyno'r ddeiseb, ac nad yw'r Cynghorydd lleol wedi cael cais i gyflwyno ar ei ran, bydd yn cael ei ddarllen gan y Cadeirydd. Yn dilyn y cyfarfod, bydd ymateb yn cael ei anfon at y deisebydd arweiniol o fewn 15 diwrnod gwaith i'r cyfarfod a bydd yn cael ei rhoi ar wefan y Cyngor.

Rhaid i unrhyw ddeiseb sy'n mynd yn uniongyrchol i'r Cyngor neu'r Cabinet gael ei chyflwyno gan Gynghorydd.

## 3. Pa faterion y gall fy neiseb ymwneud â nhw?

Dylai eich deiseb fod yn berthnasol i fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch, neu gyfrifoldebau darparu ar y cyd sydd ganddo amdano. Dylid ei chyflwyno hefyd yn ddidwyll a rhaid iddi fod yn weddus, yn onest ac yn barchus.

Efallai y bydd eich deiseb yn cael ei gwrthod os yw Swyddog Monitro'r Cyngor o'r farn ei bod:

- yn cynnwys iaith eithafol, lidiol, sarhaus neu bryfoclyd
- yn ddifenwol, yn wamal, yn flinderus, yn camwahaniaethu neu fel arall, yn sarhaus, neu'n cynnwys datganiadau ffug
- yn rhy debyg i ddeiseb arall a gyflwynwyd o fewn y chwe mis diwethaf
- yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig, gan gynnwys gwybodaeth a ddiogelir gan orchymyn llys neu adran o'r llywodraeth
- yn datgelu deunydd, sydd fel arall yn sensitif yn fasnachol
- yn enwi unigolion, neu'n rhoi gwybodaeth lle gellir eu hadnabod yn hawdd, e.e. swyddogion unigol cyrff cyhoeddus, neu'n gwneud cyhuddiadau troseddol
- yn cynnwys datganiadau hysbysebu
- yn cyfeirio at fater sydd ar hyn o bryd yn destun cwyn ffurfiol y Cyngor, ymgynghoriad, cwyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu unrhyw achos cyfreithiol
- yn ymwneud â swyddogaethau cynllunio neu drwyddedu'r Cyngor gan fod prosesau statudol ar wahân ar waith ar gyfer delio â'r materion hyn
- nid yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch neu gyfrifoldebau cyflenwi ar y cyd amdano

Os byddwn yn penderfynu nad yw deiseb yn dderbyniol, yna byddwn yn rhoi gwybod i drefnydd y ddeiseb am ein rhesymau.

Yn ystod cyfnodau gwleidyddol sensitif, megis cyn etholiad, efallai y bydd yn rhaid cyfyngu ar ddeunydd sy'n wleidyddol ddadleuol.

Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am yr e-ddeisebau ar y tudalennau gwe hyn. Nid yw'r farn a fynegir yn yr e-ddeisebau o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Cyngor.

Os yw eich deiseb yn ymwneud â mater sydd y tu hwnt i bwerau'r Cyngor roi sylw iddo, gallai fod yn fwy priodol dechrau e-ddeiseb ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael cyngor ar dderbynioldeb e-ddeisebau gan y Gwasanaethau Democrataidd.

**ADRAN 7 – ATODIAD 4**

## PROTOCOL AR GYFER CWESTIYNAU I AELODAU CABINET

Mae Rheolau Trefn y Cyngor yn nodi y dylai eitem sefydlog fod ar raglenni Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 'Cwestiynau ar gyfer Aelodau'r Cabinet'.

Dylai aelodau sydd yn dymuno holi cwestiynau ffurfiol i'r Cabinet nad yw'n gysylltiedig ag eitemau ar y rhaglen wneud hyn drwy rybudd ymlaen llaw, gan roi 5 diwrnod gwaith o rybudd, ond gyda'r hyblygrwydd i Aelodau godi cwestiynau brys yn y cyfarfod ar y ddealltwriaeth efallai na fydd ymateb llawn ar gael gan yr Aelod Cabinet os na roddir rhybudd ymlaen llaw.

Ni ddylai cwestiynau ymwneud â materion gweithredol.

**Y broses ar gyfer cyflwyno Cwestiynau:**

Gall aelod ofyn cwestiwn os:

(i) ydynt wedi rhoi o leiaf 5 diwrnod gwaith o rybudd yn ysgrifenedig o'r cwestiwn i'r Swyddog Cefnogi Craffu; neu

(ii) gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor lle bydd y cwestiwn yn cael ei gyflwyno, gan fod rhywfaint o hyblygrwydd i dderbyn cwestiynau brys heb rybudd ymlaen llaw, ar y ddealltwriaeth na fydd ymateb llawn ar gael gan yr Aelod Cabinet, os na roddir rhybudd ymlaen llaw. Penderfynir ar eitemau brys yn unol â Rheol 8 y Rheolau Trefn.

**Ymateb i Gwestiynau:**

(i) Gofynnir ac atebir pob cwestiwn heb drafodaeth, ond gall yr Aelod Cabinet y cyfeiriwyd y cwestiwn iddynt wrthod ateb.

(ii) Gall ateb fod ar ffurf:

- Ateb llafar uniongyrchol;
- Pan fo'r wybodaeth a ddymunir mewn cyhoeddiad gan y Cyngor neu waith arall a gyhoeddwyd, cyfeirir at y cyhoeddiad hwnnw; neu
- Lle na ellir rhoi'r ateb yn gyfleus ar lafar, caiff ateb ysgrifenedig ei anfon yn ddiweddarach i'r sawl a ofynnodd y cwestiwn.

(iii) Gall aelod sy'n gofyn cwestiwn ofyn un cwestiwn atodol heb rybudd i'r aelod y gofynnwyd y cwestiwn gwreiddiol. Rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb.

(iv) Ni ddylid treulio mwy na 10 munud ar gwestiynau yn y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Os na fydd y cwestiynau wedi'u hateb pan ddaw'r amser i ben, caiff y cwestiynau a'r atebion eu dosbarthu ar ffurf ysgrifenedig i'r aelodau a'u cynnwys maes o law yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.